Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

200
1822 - 2022

*Man Geni Addysg Uwch yng Nghymru*
*Where Higher Education Began in Wales*

# ECAD5007/C
# Sicrhau Cynnydd Dysgwyr

Mae cwricwlwm llwyddiannus, a gefnogir gan addysgu a dysgu effeithiol, yn galluogi dysgwyr i wneud cynnydd ystyrlon.

[Cwricwlwm i Gymru: Y Cod Cynnydd | LLYW.CYMRU]


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Cwricwlwm i Gymru –
Y Cod Cynnydd




Mae Y Llun Hwn gan Awdur Anhysbys wedi’i drwyddedu dan CC BY-NC

Os mai copa'r mynyddoedd yw'r camau cynnydd...



...a godre'r mynyddoedd yw'r cwricwlwm... Sut olwg fyddai ar daith 3 dysgwr gwahanol?


Cadwyn Mynyddoedd Dilyniant
Progression Mountain Range

Nid yw cynnydd yn digwydd ar hyd continwwm llyfn camddoeth: gall dysgu gynnwys 'neidiau' anrhagweladwy a datblygiad cysyniadol anghyson (Lombard et al. 2018) .



Mae cynnydd o fewn dysgu yn broses soffistigedig cynyddol, yn hytrach nac ymdrin gyda chorff o wybodaeth.

Dylai asesu, sy’n cael ei adeiladu i gwricwlwm yr ysgol gydnabod hyn a chaniatáu amryw o ddargyfeiriadau, stopiau ac hyrddiadau o fewn taith y dysgwr.

# Beth yw eich dealltwriaeth o gynnydd yn **Cwricwlwm i Gymru**?






https://youtu.be/nWAtOkeuWus?list=PLTZvaU9CIF5tfIXnHAp-RQnbqSMAEF4wW

Mae Datblygu Dealltwriaeth Gyffredin o Gynnydd wedi ei adeiladu ar...

wybodaeth perthnasol

cynllunio'r cwricwlwm

addysgeg

asesu ac adborth


A SHARED UNDERSTANDING of PROGRESSION means...
@ImpactWales
We believe in impact. Contact enquiries@impact.wales for high quality, research-informed support.
www.impact.wales
START HERE
1st
1 - Know what excellence looks like
FLEXIBILITY
SPEED
STRENGTH
2 - Break down excellence into its constituent parts
A
B
3 - Understand the journey from start to finish for each constituent part
x 10
+
x 15
4 - Know what curriculum tasks will develop learning for each element.
5 - Use pedagogy that supports learning at each step
6 - Assess understanding & improvement accurately
PROGRESS
7 - Give effective feedback that supports improvement
PROGRESS
A shared understanding of PROGRESSION is built on...
Domain knowledge + Curriculum design + Pedagogy + Assessment + Feedback

DECHREUWCH YMA




1. Gwybod sut olwg sydd ar 'arbennig'




2. Ymddatod yr 'arbennig' i'w rannau cyfansoddol




3. Deall y daith o'r dechrau i'r diwedd ar gyfer pob rhan cyfansoddol.




4. Gwybod pa dasgau cwricwlaidd bydd yn datblygu'r dysgu ar gyfer pob elfen.



5. Defnyddio addysgeg sy'n cefnogi'r dysgu ar gyfer pob cam.



6. Aesu dealltwriaeth a gwelliannau'n fanwl.




CYNNYDD

7. Rhoi adborth effeithiol sy'n cefnogi gwelliannau.

Pa un peth ydych chi'n falch ohono o ran eich dull i sicrhau cynnydd hyd yn hyn?

Pam?




# Beth sy’n rhwystr i chi wrth ddatblygu cynnydd o fewn y cwricwlwm? Pam?

Mae Y Llun Hwn gan Awdur Anhysbys wedi’i drwyddedu dan CC BY-SA

# Dechrau arni



### Cyflwyniad i ganllawiau Cwricwlwm i Gymru

Cyflwyniad i'r pedwar diben, beth sy'n newydd, pam fod pethau'n newid ac ar gyfer pwy y mae'r canllawiau



### Crynodeb o'r ddeddfwriaeth

Esboniad o statws cyfreithiol canllawiau'r cwricwlwm, y dyletswyddau cyfreithiol ar ysgolion a beth fydd hyn oll yn ei olygu'n ymarferol



### Cynllunio'ch cwricwlwm

Canllawiau cyffredinol ar gyfer cynllunio'ch cwricwlwm ar draws pob maes dysgu a phrofiad



### Trefniadau asesu

Canllawiau a gwybodaeth ar gyfer cynllunio trefniadau asesu o fewn cwricwlwm ysgol



### Y daith i weithredu'r cwricwlwm

Diben y canllawiau hyn yw cefnogi ysgolion drwy ddarparu casgliad cyffredin o ddisgwyliadau, blaenoriaethau a gwybodaeth ategol ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm



### Cynllun gweithredu

Ein paratoadau ar gyfer cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru

[Cwricwlwm i Gymru - Hwb (gov.wales)]

Nod canllawiau Cwricwlwm i Gymru yw helpu pob ysgol i ddatblygu ei chwricwlwm ei hun, gan alluogi ei dysgwyr i ddatblygu tuag at pedwar diben y cwricwlwm – y man cychwyn a’r dyhead ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru.

Dylai’r pedwar diben fod yn ddyhead ac yn nod terfynol ar gyfer y cwricwlwm a gynllunnir gan ysgolion. Yn y pen draw, nod cwricwlwm ysgol yw cefnogi ei dysgwyr i ddod yn:

- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau
- gyfranwyr mentrus, creadigol sy’n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a’r byd
- unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.






Y bwriad yw y bydd galluogi dysgwyr i wneud cynnydd mewn perthynas â'r dibenion hyn yn llywio'r holl benderfyniadau sy'n ymwneud â chynllunio a gweithredu cwricwlwm a threfniadau asesu ysgol

Mae Cymru yn eglur iawn…Rhaid galluogi dysgwyr i wneud cynnydd tuag at y pedwar diben.

# Felly sut caiff hyn ei wireddu a pha rôl sydd gan ‘cynnydd y dysgwr’ yn hyn?









## Meysydd dysgu a phrofiad



Y Celfyddydau Mynegiannol



Iechyd a Lles



Y Dyniaethau



Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu



Mathemateg a Rhifedd



Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Y datganiadau o’r hyn sy’n bwysig yw’r sail i gynnydd y dysgwyr. Trwy archwilio’r syniadau a’r egwyddorion allweddol sy’n cael eu cynnwys yn y datganiadau hyn y byddan nhw’n datblygu eu dysgu.






## Meysydd dysgu a phrofiad


Y Celfyddydau Mynegiannol


Iechyd a Lles


Y Dyniaethau


Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu


Mathemateg a Rhifedd


Gwyddoniaeth a Thechnoleg

# Elfennau gorfodol cwricwlwm

Bydd y canlynol yn elfennau gorfodol o gwricwlwm.

- Crefydd, gwerthoedd a moeseg.
- Addysg cydberthynas a rhywioldeb.
- Cymraeg.
- Saesneg.






## Meysydd dysgu a phrofiad



Y Celfyddydau Mynegiannol



Iechyd a Lles



Y Dyniaethau



Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu



Mathemateg a Rhifedd



Gwyddoniaeth a Thechnoleg

# Sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol

Bydd llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol a rhaid eu hymgorffori mewn unrhyw gwricwlwm a fabwysiedir.



# Oes egwyddorion allweddol y dylai ysgolion meddwl amdanynt wrth ddatblygu cynnydd?



Mae Y Llun Hwn gan Awdur Anhysbys wedi'i drwyddedu dan CC BY




## Meysydd dysgu a phrofiad



Y Celfyddydau Mynegiannol



Iechyd a Lles



Y Dyniaethau



Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu



Mathemateg a Rhifedd



Gwyddoniaeth a Thechnoleg

**Cod cynnydd**

Bydd yn rhaid i gwricwlwm ysgol adlewyrchu'r egwyddorion cynnydd a nodir yn y cod.



**Egwyddorion cynnydd**

Dylai cynnydd mewn dysgu bob amser fod wrth wraidd y broses o gynllunio’r cwricwlwm yn hytrach na dechrau gyda thema ac addasu'r dysgu i gydweddu â hi. Wrth ddewis cynnwys cwricwlwm, mae'n rhaid i ysgolion ac ymarferwyr ddefnyddio'r *egwyddorion cynnydd* i lywio eu dull gweithredu o ran cynnydd.

Mae’r egwyddorion cynnydd yn mynegi'r egwyddorion ehangach o ran yr hyn y mae cynnydd yn ei olygu yn y Maes yn ei gyfanrwydd. Fel y cyfryw, mae'n rhaid i ysgolion ac ymarferwyr ddefnyddio'r egwyddorion hyn i lywio'r holl ddysgu i gefnogi cynnydd.

# Egwyddorion cynnydd

Mae pum egwyddor cynnydd yn ategu cynnydd ar **draws yr holl Feysydd**. Mae'r egwyddorion fel a ganlyn.

**Effeithiolrwydd cynyddol**

**Ehangder a dyfnder gwybodaeth cynyddol**

**Dyfnhau'r ddealltwriaeth o'r syniadau a'r disgyblaethau o fewn y Meysydd**

**Mireinio a soffistigeiddrwydd cynyddol wrth ddefnyddio a chymhwyso sgiliau**

**Creu cysylltiadau a throsglwyddo'r dysgu i gyd-destunau newydd**


Y pedwar diben
Creu cysylltiadau a throsglwyddo dysgu i gyd-destunau newydd
Cynyddu effeithiolrwydd fel dysgwr
Dyfnhau dealltwriaeth o'r syniadau a'r disgyblaethau o fewn y Meysydd
Mireinio a soffostigeiddrwydd cynyddol wrth ddefnyddio a chymhwyso sgiliau
Cynyddu ehangder a dyfnder gwybodaeth


Mae Y Llun Hwn gan Awdur Anhysbys wedi'i drwyddedu dan CC BY-NC

# Ydy addysgeg effeithiol yn cefnogi cynnydd dysgwyr?

- Mae addysgeg effeithiol yn hollbwysig i gefnogi cynnydd. Dylid dewis y dulliau addysgeg a ddefnyddir gan ymarferwyr i gefnogi cynnydd a bydd angen i'r **rhain addasu i anghenion dysgwyr**.
- Mae 12 egwyddor addysgegol y Cwricwlwm i Gymru yn cynnig cyfres nad yw’n gynhwysfawr o egwyddorion addysgu effeithiol sy'n helpu i alluogi dysgwyr i wneud cynnydd, ond nid ydynt yn ddulliau addysgeg arwahanol eu hunain. Dylid eu hystyried ochr yn ochr â'r egwyddorion cynnydd mandadol hyn er mwyn llywio'r ffordd orau o gefnogi dysgwyr i wneud cynnydd.

# Ydych chi eisiau annog cynnydd?

Mae cynllun y Cwricwlwm ar gyfer holl ddysgwyr wedi ei danseilio gan deuddeg egwyddor addysgegol, sy'n nodi bod dysgu ac addysgu da:

| | | | |
|---|---|---|---|
| yn cadw ffocws cyson ar ddibenion cyffredinol y cwricwlwm | yn herio pob dysgwr drwy eu hannog i gydnabod pwysigrwydd ymdrech barhaus i gyrraedd disgwyliadau sy'n uchel ond sy'n gyraeddadwy iddynt | yn golygu defnyddio amrywiaeth o ddulliau gan gynnwys addysgu uniongyrchol | yn golygu cyflogi cyfuniad o ddulliau gan gynnwys y rhai sy'n hyrwyddo'r gwaith o ddatrys problemau, meddwl creadigol a beirniadol |
| yn gosod tasgau ac yn dewis adnoddau sy'n adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol ac sy'n ennyn diddordeb | yn creu cyd-destunau dilys ar gyfer dysgu | yn golygu defnyddio asesu ar gyfer egwyddorion dysgu | yn amrywio o fewn ac ar draws Meysydd |
| yn atgyfnerthu'n rheolaidd sgiliau trawsgwricwlaidd llythrennedd, rhifedd a digidol | yn annog dysgwyr i gymryd cyfrifoldeb cynyddol am eu dysgu eu hunain | yn cefnogi datblygiad cymdeithasol ac emosiynol a pherthnasoedd cadarnhaol | yn annog cydweithio |

+ Egwyddorion Cynnydd

- Mae pob MDaPh wedi amlinellu sut olwg sydd ar bob egwyddor cynnydd o fewn y maes

MAES DYSGU A PHROFIAD

# Iechyd a Lles



**Canllawiau i helpu ysgolion a lleoliadau i ddatblygu eu cwricwlwm eu hunain, gan alluogi dysgwyr i ddatblygu o ran y pedwar diben.**

**Cynnwys**


1. Cyflwyniad
2. Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig
3. Egwyddorion cynnydd
4. Disgrifiadau dysgu
5. Cynllunio eich cwricwlwm


## 3. Egwyddorion cynnydd

**Mandadol**

Rhaid i gynnydd o fewn y Maes Iechyd a Lles alluogi dysgwyr i ailymweld â'r dysgu a chryfhau'r dysgu mewn cysyniadau yn y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar draws ystod eang o bynciau ac agweddau ar iechyd a lles. Bydd cyd-destunau dysgwyr, eu pryderon, eu diddordebau a'u hamgylchiadau personol i gyd yn cael effaith ar yr hyn sy'n eu galluogi i wneud cynnydd a pha mor gyflym y maent yn gwneud y cynnydd hwnnw. Mae hyn yn arbennig o berthnasol yng nghyd-destun teimladau ac emosiynau.

### Effeithiolrwydd cynyddol fel dysgwr

Mae dysgwyr yn gwneud cynnydd drwy ddatblygu eu ha... a'u gweithrediaeth mewn materion sy'n ymwneud ag iec... gan arwain at gyfrifoldeb cynyddol ... iechyd a'u ll...

PERTHNASOL

Datblygu gweledigaeth ar gyfer dylunio cwricwlwm: cynnydd

### Dyfnhau'r ddealltwriaeth o'r syniadau a'r disgyblaethau yn y Meysydd

Wrth i ddysgwyr wneud cynnydd, maent yn datblygu gwerthfawrogiad o arwyddocâd amrywiaeth o agweddau ar eu hiechyd a'u lles sydd wedi'u cynnwys yn y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a'r hyn a all ddylanwadu ar yr agweddau hynny. Maent yn edrych ar wahanol agweddau a phynciau sy'n ymwneud ag iechyd a lles drwy lens gwahanol ddatganiadau o'r hyn sy'n bwysig. O'r herwydd, mae cynnydd yn golygu bod dysgwyr yn datblygu

### Ehangder a dyfnder gwybodaeth cynyddol

Bydd cynnydd yn golygu bod dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth gynyddol soffistigedig o'r cysyniadau sylfaenol a amlinellir yn y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ac o amrywiaeth o agweddau, pynciau a materion sy'n ymwneud â'u hiechyd a'u lles, a lles pobl eraill. Bydd cynnydd yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ailedrych ar agweddau, pynciau a materion, gan ddatblygu gwybodaeth ar

Gweithgaredd safle marchnad!




[Perspectives from practitioners on approaching progression in their curriculum - YouTube]

# Tasg gyfeiriedig




[Camau i'r Dyfodol (gov.wales)](https://gov.wales)


DIOLCH AM WRANDO
OES UNRHYW CWESTIYNAU?